

Dydd Mawrth, 18 Gorffennaf 2023

Dear Cyngorwyr,

CABINET

Gofynnir i chi fynychu cyfarfod **Cabinet** a gynhelir yn **Steve Greenslade Room, County Hall, Usk** ar **Dydd Mercher, 26ain Gorffennaf, 2023**, am **5.00 pm**.

AGENDA

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
2. Datganiadau o Fuddiant
3. CYFLWYNO ARGYMHELLION YR ADOLYGIAD O FY NIWRNOD, FY MYWYD 1 - 86

Is-Adran/Wardiau yr effeithir arnynt: Pob un

Diben: Cyflwyno canfyddiadau'r adolygiad o'r Gwasanaeth Fy Niwrnod, Fy Mywyd, yr adborth a dderbyniwyd gan y cyhoedd a'r cynllun gweithredu er mwyn i'r cabinet eu hystyried, a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer yr argymhellion

Awdur: Ceri York Rheolwr Gwasanaeth Comisiynu a Gwasanaethau Anabled

Manylion Cyswllt: ceriyork@monmouthshire.gov.uk

4. CYLLID S106 CIL-Y-COED 87 - 106

Is-Adran/Wardiau yr effeithir arnynt: Cil-y-coed

Diben: Argymhell i'r Cabinet llawn y dylid cynnwys y cyllid cyfalaf sy'n deillio o gytundebau S106 yng nghyllideb gyfalaf 2023/24

Awdur: Cath Saunders – Rheolwr Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu; Nikki Wellington – Rheolwr Gwasanaethau Cynnal

Manylion Cyswllt: Cathsaunders@monmouthshire.gov.uk
Nicolawellington@monmouthshire.gov.uk

5. DIWALLU ANGHENION LLEINIAU SIPSIWN A THEITHWYR – NODI SAFLEOEDD 107 - 146

Is-Adran/Wardiau yr effeithir arnynt: Pob un

Diben: Diben yr adroddiad hwn yw cymeradwyo cynnig fod y Cyngor yn ymgynghori ar addasrwydd pedwar darn o dir sy'n berchen i'r Cyngor ar gyfer datblygiad posib er mwyn diwallu (neu ddiwallu'n rhannol) ei rwymedigaeth i fynd i'r afael â'r anghenion sydd wedi dod i'r amlwg o ran lleiniau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Fynwy. Mae'r adroddiad hefyd yn argymhell y dylid gwerthuso pumed darn o dir, fel sail i ymgynghoriad posib.

Awdur: Ian Bakewell, Rheolwr Tai a Chymunedau

Manylion Cyswllt: ianbakewell@monmouthshire.gov.uk

6. CYNNYDD Y GYLLIDEB REFENIW 2023/24– DIWEDDARIAD CYNNAR 147 - 166

Is-Adran/Wardiau yr effeithir arnynt: Pob un

Diben: Rhoi diweddariad cynnar i'r Cabinet ar gynnydd cyllideb referniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24

Awdur: Jonathan Davies, Pennaeth Cyllid (Dirprwy Swyddog S151)

Manylion Cyswllt: jonathandavies2@monmouthshire.gov.uk

Yours sincerely,

Paul Matthews
Chief Executive

PORTFFOLIOS CABINET

Cynghorydd Sir	Maes Cyfrifoldeb	Ward
Mary Ann Brocklesby	<p>Arweinydd Swyddogion Arweiniol – Paul Matthews, Matthew Gatehouse</p> <p>Strategaeth a Chyfeiriad yr Awdurdod Cyfan Adolygu a gwerthuso perfformiad yr Awdurdod Cyfan Hyrwyddo lleoliaeth o fewn fframweithiau rhanbarthol a chenedlaethol Perthynas â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a chymdeithasau llywodraeth leol Perthynas Ranbarthol â Dinas-ranbarthau a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caffael Strategol Cynhyrchu a bwyta bwyd yn lleol, gan gynnwys amaeth-goedwigaeth a garddwriaeth leol</p>	Llanelly
Paul Griffiths	<p>Aelod Cabinet ar gyfer Cynllunio a Datblygu Economaidd / Dirprwy Arweinydd Swyddog Arweiniol – Frances O'Brien</p> <p>Strategaeth Economaidd Cynllun datblygu lleol a chynllun datblygu strategol gan gynnwys safleoedd tai strategol Cefnogi Canol Trefi gan gynnwys parcio ceir a gorfodi Rheoli Datblygu a Rheoli Adeiladu Sgiliau a Chyflogaeth Cysylltedd band eang Meysydd parcio a gorfodi sifil</p>	Chepstow Castle & Larkfield
Rachel Garrick	<p>Aelod Cabinet ar gyfer Adnoddau Swyddogion Arweiniol – Peter Davies, Frances O'Brien, Matthew Phillips, Jane Rodgers</p> <p>Cyllid gan gynnwys y MTFP a'r cylch cyllideb blynyddol Budd-daliadau Technoleg ddigidol a gwybodaeth Adnoddau dynol, y gyflogres, iechyd a diogelwch Tir ac adeiladau Cynnal a chadw a rheoli eiddo</p>	Castell Cil-y-coed

	Cynllunio ar gyfer argyfyngau	
Martyn Groucutt	<p>Aelod Cabinet ar gyfer Addysg Swyddogion Arweiniol – Will McLean, Ian Saunders</p> <p>Addysg Blynyddoedd Cynnar Addysg statudol pob oed Anghenion dysgu ychwanegol/cynhwysiant Addysg ôl-16 ac oedolion Safonau a gwella ysgolion Dysgu cymunedol Rhaglen cymunedau cynaliadwy ar gyfer dysgu Gwasanaethau leuenctid Cludiant ysgol</p>	Lansdown
Sara Burch	<p>Aelod Cabinet ar gyfer Cymunedau Byw a Chynhwysol Swyddogion Arweiniol – Frances O'Brien, Ian Saunders, Jane Rodgers, Matthew Gatehouse</p> <p>Digartrefedd Cyflenwi Tai Fforddiadwy a thai'r sector preifat (tai gwag, cynllun prydesu, benthyciadau gwella cartrefi, grantiau cyfleusterau i'r anabl a thechnoleg ymaddasol) Teithio llesol a Hawliau Tramwy Canolfannau hamdden, chwarae a chwaraeon Datblygu Twristiaeth a Strategaeth Ddiwylliannol Cyfleusterau cyhoeddus Safonau masnach, iechyd yr amgylchedd, diogelu'r cyhoedd a thrwyddedu</p>	Cantref
Ian Chandler	<p>Aelod Cabinet ar gyfer Gofal Cymdeithasol, Diogelu a Gwasanaethau Iechyd Hygyrch Swyddog Arweiniol – Jane Rodgers</p> <p>Gwasanaethau plant Maethu a mabwysiadu Gwasanaeth Troseddau leuenctid Gwasanaethau oedolion Diogelu ar draws yr Awdurdod Cyfan (plant ac oedolion) Anableddau Iechyd meddwl a lles Perthynas â darparwyr iechyd a mynediad at ddarpariaeth iechyd</p>	Park

<p>Catrin Maby</p>	<p>Aelod Cabinet ar gyfer Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd Swyddogion Arweiniol – Frances O'Brien, Matthew Gatehouse</p> <p>Datgarboneiddio Cynllunio trafndiaeth, trafndiaeth gyhoeddus, priffyrdd a fflyd CSF Rheoli gwastraff, gofal strydoedd, sbwriel, manau cyhoeddus a pharciau Palmentydd a lonydd cefn Lliniaru, rheoli ac adfer llifogydd Cefn gwlad, bioamrywiaeth, ac iechyd afonydd</p>	<p>Drybridge</p>
<p>Angela Sandles</p>	<p>Aelod Cabinet ar gyfer Cydraddoldeb ac Ymgysylltu Swyddogion Arweiniol – Frances O'Brien, Matt Phillips, Matthew Gatehouse, Jane Rodgers</p> <p>Anghydraddoldeb a thlodi cymunedol (iechyd, incwm, maetheg, anfantais, gwahaniaethu, ynysu ac argyfwng costau byw) Ymgysylltu â dinasyddion a hybu democratiaeth gan gynnwys gweithio gyda sefydliadau gwirfoddol Profiad y dinesydd - hybiau cymunedol, canolfan gyswllt a gwasanaeth cwsmeriaid a chofrestryddion Gwasanaethau Etholiadol ac adolygu'r cyfansoddiad Cyfathrebu, cysylltiadau cyhoeddus a marchnata Moeseg a safonau Yr iaith Gymraeg</p>	<p>Y Dref</p>

Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

Amcanion y gweithiwn tuag atynt

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

Ein Gwerthoedd

Bod yn agored. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

Tegwch. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwmo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

Hyblygrwydd. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

Gwaith Tîm. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatrysyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

Caredigrwydd – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.